# Ymunwch â'n tîm fel Arolygydd Anghenion Dysgu Ychwanegol [AADY]

Barod i ddechrau eich cais? Cliciwch yma

## Ynglŷn â'r rolau

Rydym yn chwilio am weithwyr proffesiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) tra phrofiadol a chymwysedig i ymuno â ni fel Arolygwyr ADY.

Ein nod yw cynyddu nifer yr arolygwyr ychwanegol sy'n cael eu defnyddio i arolygu Dosbarthiadau Arbenigol Awdurdodau Lleol (LASC) mewn ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Rydym yn cydnabod y cyfle dysgu proffesiynol gwerthfawr y mae'r rôl hon yn ei gynnig i gydweithwyr ADY profiadol efallai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer hyfforddiant Arolygwyr Cymheiriaid.

Caiff arolygwyr ADY eu defnyddio yn ein harolygiadau o Ddosbarthiadau Arbenigol Awdurdodau Lleol (LASC) mewn ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Maent yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu, yn ystyried ac yn gwerthuso cynnydd disgyblion ac yn rhoi adborth yn rhan o'n tîm arolygu.

## Cymhwysedd

Rydym yn chwilio am ymarferwyr profiadol a brwd o awdurdodau lleol, ysgolion prif ffrwd â darpariaeth LASC ac ysgolion arbennig a gynhelir.

I fod yn gymwys, rhaid i chi fod â:

- Statws Athro Cymwysedig.
- O leiaf bum mlynedd o brofiad mewn rôl ymgynghorol (e.e. athro ADY arbenigol/ymgynghorol, seicolegydd addysg).
- O leiaf bum mlynedd o brofiad o arwain dosbarth arbenigol awdurdod lleol a/neu addysgu disgyblion ag ADY mewn lleoliadau arbenigol, gan gynnwys ysgolion arbennig â gynhelir.

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn ymgeiswyr sydd â phrofiad mewn:

- Awtistiaeth
- Anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu
- Anawsterau dysgu difrifol
- Anawsterau dysgu dwys a lluosog
- Namau ar y clyw a namau gweledol

Mae'r gallu i gynnal arolygiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol iawn.

## Hyfforddiant a lleoli

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i'n hyfforddiant ar 10-12 Tachwedd 2025, lleoliad i'w gadarnhau. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cwmpasu:

- Rôl Estyn, ein hegwyddorion arolygu a'n meddylfryd arolygu.
- Trosolwg o ddarpariaeth ADY a Dosbarthiadau Arbenigol Awdurdodau Lleol.
- Cipolwg ar arolygu.
- Llunio gwerthusiadau ac adroddiadau.
- Defnyddio'r Ystafell Arolygu Rithwir (YAR).

Byddwn yn rhoi adborth unigol ac yn rhoi gwybod i chi a fyddwch yn cael eich ychwanegu at ein rhestr o AADY.

Pan fyddwch yn cael eich defnyddio fel Arolygydd Ychwanegol, byddwn yn talu cyfraniad cyfradd unffurf i'ch ysgol neu'ch ALl ar gyfer staff cyflenwi. Byddwn hefyd yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob Arolygydd i fynychu hyfforddiant diweddaru yn nhymor yr haf; rhaid i chi fynychu'r hyfforddiant hwn i barhau â'ch rôl. Nid oes tâl am yr hyfforddiant, ond ni allwn dalu costau staff cyflenwi na chostau teithio a chynhaliaeth.

## Cymeradwyaeth i fynychu

Er mwyn mynychu hyfforddiant ac, os byddwch yn llwyddiannus, mynychu arolygiadau, mae'n rhaid i ni gael cymeradwyaeth gan eich cyflogwr. Rhaid derbyn hwn **cyn** yr hyfforddiant neu ni fyddwch yn gallu mynychu.  Bydd neges e-bost yn cael ei hanfon at y cyswllt rydych chi wedi'i rannu yn eich cais.

## Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Os cewch eich gwahodd i'r hyfforddiant, bydd angen i chi fod â gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mewn lle **cyn** mynychu'r hyfforddiant. Dylai fod yn dystysgrif fanwl, nad yw'n fwy na thair oed a dylai gynnwys categori'r gweithlu plant. Bydd angen y gwiriad hwn arnoch i fod yn Arolygydd Cymheiriaid â chofrestriad llawn.

## Sut i wneud cais

Ffurflen gais ar-lein: https://www.smartsurvey.co.uk/s/IAAOC0/
Dyddiad cau: **Canol dydd, 30 Medi 2025**

Byddwn yn cysylltu â phawb â chanlyniad eu cais yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 6 Hydref 2025.

Mae unrhyw feysydd sydd wedi'u nodi â * yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os nad ydynt yn berthnasol i chi, rhowch 'Dd/B'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae pob croeso i chi anfon neges e-bost atom yn digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffonio 02920 44 6510. Am drafodaeth fanylach, cysylltwch â'n Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Dyfrig Ellis, ar 02920 4446510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.